# EIN TAITH




**GWOBR AUR LLEOEDD BWYD CYNALIADWY CAERDYDD**

# GAIR O GROESO

**Fel yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Strategaeth Fwyd fel rhan o'm portffolio ac yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Grŵp Llywio Bwyd y Cyngor, rwy'n hynod falch bod Caerdydd wedi ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.**

Mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn rym arloesol yn y Mudiad Bwyd Da yn y ddinas ers sefydlu Bwyd Caerdydd yn 2014. Mae ein hymrwymiad cadarn i greu system fwyd gynaliadwy wedi bod yn agwedd allweddol ar ein gwaith, ac rydym wrth ein bodd o fod wedi sefydlu sylfaen gadarn i'n galluogi i dyfu. Mae agenda polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol presennol ill dau yn ymrwymo i weithio gyda phartneriaeth Bwyd Caerdydd a chefnogi ei chais i ddod yn Lle Bwyd Cynaliadwy cyntaf Cymru i ennill statws Aur.

Fel prifddinas Cymru, mae Caerdydd eisoes wedi cyflawni cerrig milltir nodedig ar y llwybr hwn. Ni yw'r Lle Bwyd Cynaliadwy cyntaf yng Nghymru i ennill gwobrau Aur, Efydd ac Arian - teitl a gafwyd drwy ymdrechion ar y cyd gan ein partneriaid, ein cymuned ymgysylltiedig, a'n cydweithwyr ymroddedig. At hynny, mae datblygiad Strategaeth Fwyd gynhwysfawr ar gyfer y Cyngor - y gyntaf o'i bath lle mae strategaeth Partneriaeth Fwyd eisoes ar waith yn yr ardal - yn tanlinellu ein dull rhagweithiol o fynd i'r afael â chymhlethdodau ein system fwyd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn llawn cyffro wrth i ni ddechrau ar bennod nesaf ein taith fwyd. Yn ddiweddar, pasiodd y Cyngor gynnig, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb fynediad at fwyd iach, cynaliadwy, o safon ac a ail-gadarnhaodd gefnogaeth y Cyngor i Bartneriaeth Fwyd Caerdydd a'n nod o ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Bu'r cynnig hwn yn fodd o ail-bwysleisio'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghaerdydd, gan ymrwymo'r Cyngor i wneud mwy hefyd. Ochr yn ochr ag adolygiad cynhwysfawr o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Fwyd, bydd hyn yn sicrhau bod ein hymrwymiad diwyro i gefnogi a chyflawni ein hagenda bwyd cynaliadwy yma yng Nghaerdydd yn cael ei gynnal a'i gryfhau. Rwy'n hyderus, drwy ein cydweithrediad parhaus a'n gweledigaeth ar y cyd, y gallwn greu system fwyd sydd nid yn unig yn darparu maeth i'n cymuned ond sydd hefyd yn diogelu ein hamgylchedd ac yn meithrin dyfodol iachach ar gyfer cenedlaethau i ddod.



***Y Cynghorydd Julie Sangani***

**Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion, Iechyd Cyhoeddus a Chydraddoldeb (Rhannu Swydd), Cyngor Caerdydd**

# GAIR O GROESO

Fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rwy'n hynod falch bod ein tîm a'n sefydliad wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o sicrhau bod Caerdydd yn ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Roedd Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro yn un o gyd-sylfaenwyr Bwyd Caerdydd yn 2014 ac rydym yn falch iawn o weld faint o waith sydd wedi'i gyflawni dros y deng mlynedd diwethaf, ac rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod pawb yng Nghaerdydd yn gallu cael gafael ar fwyd da.

Mae gwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn cefnogi gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: "Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn helpu i wella bywydau fel bod pobl erbyn 2035 yn iachach a bod gwahaniaethau annheg o ran canlyniadau iechyd yn cael eu lleihau." Rydym yn defnyddio dull yn seiliedig ar system gyfan o wella'r amgylcheddau bwyd sy'n effeithio ar iechyd ein cymunedau. Fel tîm iechyd cyhoeddus arbenigol bach, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau mai'r dewis iach yw'r dewis hawdd. Mae'r Wobr Aur hon a gwaith Bwyd Caerdydd yn enghraifft wych o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Rwy'n ddiolchgar iawn i'n partneriaid hefyd.

Mae ein cynllun wedi ysgogi a rhoi arweiniad i bartneriaid annog, cefnogi a galluogi pobl i fwyta'n iach a chynyddu gweithgaredd corfforol. Rydym wedi gweld cynnydd calonogol yng nghyfran y plant sydd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, ac mae'r gyfradd bellach yn 77.5%, ond mae gwahaniaethau mawr o hyd rhwng ein hardaloedd mwyaf a lleiaf cefnog yng Nghaerdydd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rheini. Yn ddiweddar, cymerodd 160 o bobl ran mewn gweithdai i randdeiliaid i gefnogi datblygiad fframwaith diwygiedig, o'r enw 'Bwyd Da a Symud'. Y gydweledigaeth yw:

> **Gyda'n gilydd byddwn yn creu amgylcheddau, lleoliadau a chyfleoedd sy'n galluogi pawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i symud a chael gafael ar fwyd da.**

Rwy'n falch o Gaerdydd am ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'n gwaith fel arweinydd lleol a chenedlaethol i sicrhau bod yr holl bobl leol yn cael y cyfle i gael mynediad at fwyd da am bris rhesymol.



*Claire Beynon*

**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

# RHAGAIR

**Er bod y cais am y wobr Aur wedi cael ei arwain gan Bwyd Caerdydd, mae'r wobr yn gydnabyddiaeth i'r holl unigolion a sefydliadau sy'n cydweithio i hyrwyddo bwyd iach, amgylcheddol gynaliadwy a moesegol ar draws y ddinas.**




Roeddem wrth ein bodd o ennill Gwobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn 2021 ac, yn sgil y llwyddiant hwnnw, dechreuodd Bwyd Caerdydd raglen ymgysylltu ac ymgynghori ledled y ddinas i greu Strategaeth Bwyd Da Caerdydd. Fe wnaeth hynny ein rhoi ar y trywydd tuag at ennill y Wobr Aur eleni. Mae ein strategaeth, sy'n seiliedig ar yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid ar draws y ddinas, yn cynnwys pum nod ar gyfer bwyd – Caerdydd iach; Caerdydd amgylcheddol gynaliadwy; economi leol ffyniannus; system fwyd deg a chysylltiedig; a mudiad bwyd grymusol.

Ers hynny, mae partneriaeth fwyd Caerdydd wedi esblygu i fod yn rhwydwaith deinamig, cryf a chynhwysol o ymgyrchwyr dros fwyd da. Mae'r wobr hon yn gyflawniad enfawr i'r holl unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau sy'n rhan o rwydwaith Bwyd Caerdydd, a phawb yn y ddinas sydd wedi cyfrannu at ein mudiad Bwyd Da.

Wrth i ni ddathlu dengmlwyddiant Bwyd Caerdydd, mae'n wych cael y gydnabyddiaeth allanol hon o'n llwyddiant ar lefel y DU. Wrth i ni gynllunio ar gyfer dyfodol ein mudiad, mae'r wobr Aur yn dangos yn glir y pŵer o ddod â'r holl bobl o fewn y system fwyd ynghyd i gydweithio i gyflawni newid - i gynyddu mynediad at fwyd iach, fforddiadwy, i ddod â chymunedau ynghyd a mynd i'r afael ag ynysigrwydd, cefnogi system fwyd fwy cynaliadwy a sicrhau bod ein heconomi fwyd leol yn gallu ffynnu.

Rydym yn teimlo'n gyffrous nawr ynglŷn â dechrau'r broses o weithio gyda'r holl bartneriaid hynny ar ein cynlluniau ar gyfer strategaeth pum mlynedd nesaf Bwyd Da Caerdydd.

*Pearl Costello*


**Cydlynydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd**

## Beth oedd angen i Gaerdydd ddangos ei bod yn ei wneud er mwyn ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy?


- ☑ Cynnydd parhaus yn erbyn y 6 mater allweddol
- ☑ Cyflawniad eithriadol mewn dau faes gweithgaredd sy'n ymwneud â bwyd
- ☑ Tystiolaeth o ymgorffori partneriaethau bwyd yn ein gwaith
- ☑ Cryfder/momentwm y strategaeth fwyd leol a'r graddau y mae'n cael ei chydnabod a'i chefnogi'n weithredol gan sefydliadau allweddol




### 6 MATER ALLWEDDOL LLEOEDD BWYD CYNALIADWY




### DAU FAES O GYFLAWNIAD EITHRIADOL YNG NGHAERDYDD



# CYNNWYS


2 GAIR O GROESO

4 RHAGAIR

7 YNGLŶN Â BWYD CAERDYDD

8 PWY YDYM NI

9 SUT MAE PARTNERIAETH BWYD CAERDYDD YN GWEITHIO

10 MAE CAERDYDD YN ARWAIN Y FFORDD O RAN POLISI LLEOL CYDGYSYLLTIEDIG

11 STRATEGAETH BWYD DA BWYD CAERDYDD 21-24

13 STRATEGAETH A CHYNNIG BWYD CYNGOR CAERDYDD
SYMUD MWY, BWYTA'N IACH

14 ARWEINYDD CENEDLAETHOL





17 ASTUDIAETH ACHOS 1:
MUDIAD BWYD DA CAERDYDD

22 ASTUDIAETH ACHOS 2:
PRYD DA I BAWB, BOB DYDD (CYMUNEDAU

23 ASTUDIAETH ACHOS 3:
PRYD DA I BAWB, BOB DYDD (YSGOLION)

# YNGLŶN Â BWYD CAERDYDD



Roedd Bwyd Caerdydd yn un o sylfaenwyr Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy (sef Lleoedd Bwyd Cynaliadwy bellach) yn 2014. Mae Bwyd Caerdydd yn credu bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta yn cael effaith fawr ar fywyd yng Nghaerdydd - nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr a thyfwyr unigol, a'r amgylchedd hefyd.

Mae bwyd da yn creu cymunedau cryf, iach a gwydn. Mae'n gweithredu fel hyb sy'n cysylltu pobl a phrosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a moesegol; mae'n llais dros newid ehangach yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer newid y system fwyd leol yng Nghaerdydd.

## Pwy ydym ni

Cafodd Bwyd Caerdydd ei sefydlu ar y cyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd yn 2014. Mae'n rhan o Synnwyr Bwyd Cymru, sy'n anelu at ddylanwadu ar sut y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, gan sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a ffyniannus.

Mae Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd yn cyfarfod bob chwarter, ac yn cynrychioli pobl sydd â phrofiad o faterion iechyd, cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfathrebu, cynhyrchu bwyd, manwerthu, diffyg diogeled bwyd, gweithredu cymunedol, a pholisi.

Rhestrir aelodau'r bwrdd ar gyfer 2021 - 2024 ar Wefan Bwyd Caerdydd.

**Yn 2024, mae aelodaeth ehangach Bwyd Caerdydd yn cynnwys 270 o unigolion sy'n cynrychioli 128 o sefydliadau (mae wedi dyblu ers 2021 pan oedd gennym 127 o unigolion ar draws 74 o sefydliadau).**

Mae'r rhain yn aelodau sy'n cyfrannu'n weithgar at y bartneriaeth - mae bron i 2000 o bobl yn derbyn ein cylchlythyr. Mae'r bartneriaeth ehangach yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i hwyluso cysylltiadau a chydweithio rhwng ystod eang o weithredwyr bwyd.

**MAE BWYD CAERDYDD YN RHEDEG TRI PHRIF RWYDWAITH I YSBRYDOLI DINASYDDIAETH FWYD A GWEITHREDU AR Y CYD:**

**PARTNERIAETH BWYD CAERDYDD**
250+ o aelodau gweithgar o bob sector o'r system fwyd e.e. elusennau, tai, diwylliant, twristiaeth, lletygarwch, gweithredu ar lawr gwlad

**CYDWEITHFA FWYD GYMUNEDOL CAERDYDD**
Aelodau Bwyd Caerdydd sy'n ymwneud ag unrhyw fath o brosiect bwyd cymunedol

**CAERDYDD BWYTADWY**
Rhwydwaith ar gyfer grwpiau tyfu cymunedol
(Prosiect partneriaeth gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Bwyd Caerdydd a Tyfu Caerdydd)

bwyd Caerdydd

**Cydlynydd Bwyd Caerdydd**

## Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd

**Aelodau craidd:**

Cyngor Caerdydd

**BIP Caerdydd a'r Fro (Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol a Deieteg)

**Aelodau ychwanegol:**

Busnesau Bwyd

Elusennau

Gweithredwyr Unigol

Prifysgolion / Ymchwilwyr

## Rhwydwaith Bwyd Caerdydd

**250+ o aelodau gweithgar o bob sector**

e.g. e.e. elusennau, tai, diwylliant, twristiaeth, lletygarwch, ymgyrchwyr ar lawr gwlad

**Grwpiau wedi'u hwyluso gan Bwyd Caerdydd:**

Cydweithfa Fwyd Gymunedol Caerdydd

Gweithgor Tlodi Bwyd

Grŵp Caffael Bwyd Caerdydd a'r Fro

**Mae Grwpiau a Hwylusir gan Aelodau yn cynnwys:**

Strategaeth Fwyd Cyngor Caerdydd

Grŵp Llywio

Rhwydwaith Edible Cardiff

Grŵp Gweithredu Mudiad Bwyd Da

Grŵp Llywio Dinas Cyflog Byw

## Mudiad Bwyd Da ledled y Ddinas

**Pedair** gŵyl hydref flynyddol, gyda 46 o aelod-sefydliadau yn cynnal **100+** o ddigwyddiadau ac yn croesawu **8,000** o fynychwyr

**1000oedd** o bobl yn cael mynediad at fwyd iach, fforddiadwy drwy brosiectau manwerthu amgen

**100,000oedd** o ddognau ychwanegol o lysiau wedi'u gweini gan addunedwyr Dinasoedd Llysiau

# SUT MAE PARTNERIAETH BWYD CAERDYDD YN GWEITHIO

# Mae Caerdydd yn arwain y ffordd o ran polisi lleol cydgysylltiedig




Ymgyrch Gwneud Adduned i fusnesau: Laura, Tidy Kitchen

## Mae uchelgeisiau ar gyfer system fwyd iach, gynaliadwy a theg wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r prif bolisïau lleol:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 24-27 (Cryfach, Tecach, Gwyrddach), Caerdydd Un Blaned (ymateb i argyfwng hinsawdd), Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Symud Mwy, Bwyta'n Iach (cynllun pwysau iach)
- Mae Cynllun Lles Lleol Caerdydd yn amlinellu'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth i sector cyhoeddus Caerdydd dros gyfnod o 5 mlynedd, gan gynnwys "Hyrwyddo bwyd iach, lleol, a charbon isel a chefnogi cais Bwyd Caerdydd i ddod y Lle Bwyd Cynaliadwy Aur cyntaf yng Nghymru."

Yn benodol, mae gan Gaerdydd dair strategaeth sy'n ategu ei gilydd i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu ar fwyd da. Maent wedi'u cynllunio i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â gwahanol elfennau o system fwyd Caerdydd a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.

## 1 Strategaeth Bwyd Da Bwyd Caerdydd

Mae bron i 2,500 o bobl yng Nghaerdydd wedi cyfrannu at lunio Strategaeth Bwyd Da 2021-24 Bwyd Caerdydd, sy'n strategaeth uchelgeisiol sy'n cynnwys cynllun manwl i sicrhau bod system fwyd Caerdydd yn iach, yn amgylcheddol gynaliadwy, yn ffynnu, yn rymusol ac yn gysylltiedig. Mae Strategaeth Bwyd Da 2021-24 yn cynnwys 41 o gamau gweithredu penodol ar draws y 5 Nod ar gyfer Bwyd Da. Mae 68% o'r camau gweithredu hynny wedi'u cwblhau neu mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at eu cyflawni, gwnaed rhywfaint o gynnydd gyda 24% a dim ond 7% (3 cham gweithredu) sy'n gamau ble na wnaed unrhyw gynnydd.

Mae'r 5 Nod ar gyfer Bwyd Da yn strategaeth Bwyd Caerdydd hefyd wedi'u defnyddio fel fframwaith i ysgogi camau gweithredu pellach, er enghraifft drwy'r ymgyrch 'gwneud addunded' ac mewn grantiau fel Grant Cymorth Bwyd Uniongyrchol Cyngor Caerdydd - lle y dosbarthwyd ychydig dros £190,000 i 27 o brosiectau bwyd a oedd yn bodloni'r maen prawf ymgeisio y byddai'r prosiectau yn cefnogi un neu fwy o'r Nodau ar gyfer Bwyd Da.



Ymgyrch Gwneud Adduned i fusnesau: Kasim Ali, Waterloo Tea

Dywedodd un aelod o Bwyd Caerdydd yn 2024:

> **Yr hyn sy'n ei wneud yn bwerus yw'r gwaith y mae Bwyd Caerdydd wedi'i wneud i wrando ar leisiau pobl ledled Caerdydd i geisio canfod beth mae pobl y ddinas ei eisiau ac yna cymryd y llais hwnnw a cheisio creu'r newid ar lefel yr awdurdod lleol. Fel arall byddai gennych amrywiaeth o leisiau unigol gwahanol.**




Bu ymgynghoriad ar draws y ddinas yn sail i ddatblygiad Strategaeth Bwyd Da Caerdydd

## 2 Strategaeth a Chynnig Bwyd Cyngor Caerdydd

Roedd Cyngor Caerdydd hefyd yn un o'r awdurdodau cyntaf yn y DU i gyhoeddi ei Strategaeth Bwyd ei hun, gan gefnogi gweledigaeth Bwyd Caerdydd drwy bum maes gweithredu. Ym mis Gorffennaf 2024, pasiodd Cyngor Caerdydd gynnig, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb fynediad at fwyd iach, cynaliadwy, o safon ac a ailgadarnhaodd gefnogaeth y Cyngor i Bartneriaeth Fwyd Caerdydd a nod Cyngor Caerdydd o ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Galwodd y Cynnig hefyd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu strategaeth hirdymor, gynaliadwy ar gyfer bwyd gan ddefnyddio Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y pum ffordd o weithio. Mae'r cynnig hwn yn ailbwysleisio'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghaerdydd, gan ymrwymo'r Cyngor i wneud mwy. Ochr yn ochr ag adolygiad cynhwysfawr o Strategaeth Fwyd y Cyngor, bydd hyn yn sicrhau bod ein hymrwymiad diwyro i gefnogi a chyflawni ein hagenda bwyd cynaliadwy yma yng Nghaerdydd yn cael ei gynnal a'i gryfhau.

## 3 Symud Mwy Bwyta'n Iach - Partneriaid y sector cyhoeddus a phartneriaid ehangach Caerdydd a'r Fro

Mae Symud Mwy, Bwyta'n Iach yn Gynllun Strategol ar gyfer sector cyhoeddus cyfan Caerdydd a'r Fro a phartneriaid ehangach i annog, cefnogi a galluogi pobl i fwyta'n iach a chynyddu eu gweithgaredd corfforol. Ymdrinnir â llawer o'r camau gweithredu mewn man arall yn y ddogfen lawn (e.e. Hysbysebu Bwyd Iach, Sgiliau Maeth am Oes). Mae Bwyd Caerdydd wedi bod yn ddull cyflawni allweddol ar gyfer y cynllun hwn, o safbwynt strategol drwy fod yn rhan o'r grŵp gweithredu a chysoni blaenoriaethau a gweledigaeth a rennir, a thrwy ysgogi camau gweithredu megis prosiectau sy'n ymwneud â chaffael, hysbysebion iach a gweithredu cymunedol.

**Mae data diweddaraf y Rhaglen Mesur Plant ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yn dangos cynnydd calonogol yng nghyfran y plant sydd wedi'u categoreiddio fel rhai â phwysau iach ar draws y rhanbarth, o 74.6% (2021/22) i 77.5% (2022/23).**



o **74.6%** (2021/22)
i **77.5%** (2022/23)

# ARWEINYDD CENEDLAETHOL



Bwyd a Hwyl yn Ysgol Moorland

Esblygodd Synnwyr Bwyd Cymru o Bwyd Caerdydd i gydnabod yr angen i sefydlu dull gweithredu cenedlaethol, yn seiliedig ar systemau mewn perthynas â'r system fwyd yng Nghymru. Mae Bwyd Caerdydd yn rhan o Synnwyr Bwyd Cymru ac mae wedi bod yn allweddol o ran symud agenda polisi bwyd Cymru tuag at ddull cyfannol, systematig o ymdrin â bwyd iach a chynaliadwy.

**Ymysg yr enghreifftiau mae'r canlynol:**

- Yn 2021, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau i ehangu Bwyd a Hwyl, rhaglen a gafodd ei threialu drwy Bwyd Caerdydd yn 2015 a'i datblygu dros y blynyddoedd dilynol, yn gyntaf drwy Bwyd Caerdydd a'i gyd-sylfaenwyr Cyngor Caerdydd a thîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yna drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd bellach yn gyfrifol am y rhaglen. Ers y cynllun peilot cychwynnol mae'r rhaglen wedi bod o fudd i ddegau o filoedd o blant, teuluoedd ac ysgolion ledled Cymru.

SUSTAINABLE FISH CITIES

- Bwyd Caerdydd fu'n gyfrifol am gyflwyno pysgod amgylcheddol gynaliadwy yn y ddinas drwy gymryd rhan yn ymgyrch Dinasoedd Pysgod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - ymgyrch a arweiniodd yn y pen draw at weini pum miliwn o brydau pysgod o ffynonellau cynaliadwy ar draws y brifddinas bob blwyddyn (ac ymrwymiad i'r holl brydau yn GIG Cymru ddefnyddio pysgod sydd wedi'u hardystio fel rhai cynaliadwy yn unig).
- Helpodd Bwyd Caerdydd i ddatblygu'r rhaglen Pys Plîs, a arweiniodd at 1.1 biliwn o ddognau ychwanegol o lysiau'n cael eu gweini neu eu gwerthu yn y DU. Fe wnaeth Bwyd Caerdydd hefyd gyflwyno ymgyrch Dinasoedd Llysiau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a hwyluso’r cysylltiad â Pys Plîs a Hyrwyddwyr Llysiau.
- Yn 2021-22, cydlynodd Bwyd Caerdydd raglen a ariannwyd gan lywodraeth Cymru gyda thros 15 o bartneriaid i ddarparu dull amlochrog o fynd i’r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd a meithrin gwydnwch prosiectau bwyd cymunedol. Bu hyn o gymorth i ddatblygu'r achos dros gael £2.5 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn Partneriaethau Bwyd Traws-sector ledled Cymru gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip.



Dathlu llwyddiant Pys Plîs yn yr Uwchgynhadledd Llysiau

Mae Bwyd Caerdydd yn cyfrannu'n rheolaidd at waith eirioli cenedlaethol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r angen am bolisi bwyd cydgysylltiedig, er enghraifft drwy siarad mewn digwyddiadau, mynychu cyfarfodydd a byrddau crwn, darparu astudiaethau achos a chyngor uniongyrchol. O ganlyniad, mae gwaith Bwyd Caerdydd wedi dylanwadu ar ddogfennau polisi lluosog, ac wedi cael ei grybwyll ynddynt, gan gynnwys:

- **Bwyd Caerdydd yn cael ei gynnwys fel astudiaeth achos yn Strategaeth Fwyd Gymunedol Llywodraeth Cymru. Wedi hynny cydnabu'r ddogfen Bwyd o Bwys effaith cefnogaeth Llywodraeth Cymru i bartneriaethau bwyd cynaliadwy gan ail-gadarnhau'r gefnogaeth.**
- **Mae bwyd yn faes ffocws yn Strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru Can, a chyfeiriwyd yn benodol at waith Caerdydd mewn datganiadau dilynol ar ddiffyg diogeledd bwyd a pholisi bwyd.**
- **Cafodd cynllun peilot Cerdyn y Blaned Bwyd Caerdydd ei gynnwys yn astudiaeth achos Adroddiad Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035: "Sut gallai Cymru fwydo ei hun erbyn 2035?"**

Maes chwarae bwytadwy



**"Nid cyd-ddigwyddiad, nac ychwaith ganlyniad un neu ddau o berchnogion busnes â bwriadau da, yw'r hyn sy'n digwydd gyda bwyd yng Nghaerdydd. Mae'n ganlyniad cyllid hirdymor a gwaith caled gan dîm bach sy'n gweithio yn Synnwyr Bwyd Cymru a'r cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd, lle mae partneriaethau bwyd arloesol wedi helpu i gyfuno diddordeb lleol mewn bwyd â gwaith lobïo cenedlaethol."**

**Nina Pullman, Wicked Leeks**



Gellir disgrifio lleoedd fel rhai a chanddynt "Fudiad Bwyd Da" os oes ganddynt lawer o ymwybyddiaeth ac os ydynt yn cyfranogi'n helaeth mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd (er enghraifft tyfu, coginio a rhannu bwyd), a lle y gall unigolion a sefydliadau gysylltu a chydweithio o amgylch bwyd. Gweledigaeth Caerdydd yw i bob dinesydd ac ymwelydd deimlo bod gan Gaerdydd Fudiad Bwyd Da; a'u bod yn rhan weithredol o hynny.

## Digwyddiadau Rhwydweithio Bwyd Caerdydd

Mae digwyddiadau rhwydweithio Bwyd Caerdydd yn ysbrydoli dinasyddiaeth fwyd a gweithredu ar fwyd. Hyrwyddir cyfarfodydd agored Bwyd Caerdydd i unrhyw unigolyn sydd â diddordeb mewn bwyd (gweler enghraifft o Ganolfan Gymunedol Butetown).

**Ers 2023 mae Bwyd Caerdydd wedi cynnal 12 o ddigwyddiadau a fynychwyd gan gyfanswm o 240 o bobl. Ar draws y 6 chyfarfod yn 2023, mynychodd 81 o unigolion o leiaf un cyfarfod gyda chyfanswm o 38 o sefydliadau'n cael eu cynrychioli.**

# **ASTUDIAETH ACHOS 1:** MUDIAD BWYD DA CAERDYDD

Mae gan Gydweithfa Fwyd Gymunedol Bwyd Caerdydd 79 o aelodau unigol (gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr), sy'n cynrychioli 54 o sefydliadau, gan gyrraedd hyd at 3000 o gartrefi bob wythnos.

Cydweithiodd Caerdydd AM BYTH â Bwyd Caerdydd ar ddau ddigwyddiad ar y thema cynaliadwyedd ym mis Ionawr 2024: un ar ddangos tystiolaeth o arfer cynaliadwy gyda Pasture a'r Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy a'r ail gyda Pettigrew Bakeries ac Anabledd Cymru ar blastig untro. Mynychodd cyfanswm 50 o fusnesau y ddau ddigwyddiad. Darllenwch fwy..

**Mae'n debyg i hen ffrind sydd ag uchelgeisiau newydd a brwdfrydig! Mae Bwyd Caerdydd yn darparu amgylchedd hamddenol anffurfiol sy'n dod â phobl sy'n cynrychioli poblogaethau amrywiol prif ddinas Caerdydd ynghyd. Mae'n dangos sut y gellir cyflawni newid ar lefel gyfannol ac ar lawr gwlad ac mae'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno i bobl gyfrannu at newid yr amgylchedd bwyd o'u cwmpas yn galondid, yn ysbrydoledig ac yn rhagweithiol. Mae'r ffordd y mae Bwyd Caerdydd wedi'i drefnu'n ddigon hamddenol i sicrhau bod y rhai sy'n eu mynychu yn dod yno oherwydd eu bod yn mwynhau bod yn rhan o'r gymuned fwyd leol ac eisiau gwneud gwahaniaeth lle bynnag y gallant. Dyma lle y bydd newid gwirioneddol yn digwydd ac yn ffynnu.**

**Un aelod o Bwyd Caerdydd yn 2024**



Camilla Lovelace (ar y chwith) | Carol Adams

## Arweinwyr Bwyd

Wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o weithgarwch mudiad bwyd da Bwyd Caerdydd mae'r nod i ddinasyddion Caerdydd feithrin eu diddordeb mewn dod yn arweinwyr bwyd. Enghraifft wych o hyn yw rhaglen arweinyddiaeth Fy Nghymuned Fwyd, y mae 9 o bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd wedi cymryd rhan ynddi (mae 6% o holl gyn-fyfyrwyr y DU yn byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd o gymharu â 0.5% o'r boblogaeth), gan gynnwys aelodau o fwrdd Bwyd Caerdydd:


Cymerodd **Camilla Lovelace**, sy'n un o sylfaenwyr Gardd Gymunedol StarGarallot, aelod o Bantri Tremorfa a chyd-sylfaenydd Cydweithfa Fwyd Splo-Down, ran yn Fy Nghymuned Fwyd ac wedi hynny daeth yn aelod o fwrdd Bwyd Caerdydd a mynychodd gynhadledd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn Rhydychen.

Mae **Carol Adams** yn rheolwr Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd a sefydlodd brosiect o'r enw Back to Our Roots: Growing and Sharing Without Borders drwy Fy Nghymuned Fwyd. Mae Carol bellach yn arwain y gwaith o gyflawni prosiect peilot Cerdyn y Blaned.

## Ymgyrch Ddigidol

Ers 2021, mae Bwyd Caerdydd wedi cynnal ymgyrch ddigidol bwrpasol i arddangos Mudiad Bwyd Da Caerdydd ac i ysbrydoli mwy o bobl i fod yn rhan ohono. Mae'r ymgyrch wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol, nid yn unig i hysbysu ac ysbrydoli pobl ond i arfogi pobl â'r offer a'r adnoddau i weithredu.

- **Cynhyrchwyd 45 o fideos byr ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol**
- **Cynyddodd cynulleidfa'r cylchlythyr i 1866 o danysgrifwyr**
- **63 o erthyglau blog yn cyrraedd 11,000 o ddefnyddwyr, a edrychodd ar 26,000 o dudalennau**
- **45 eitem yn y cyfryngau gydag amcangyfrif o fwy na 750,000 o wylwyr**




Fel rhan o'r ymgyrch rydym wedi cynhyrchu 45 o fideos byr ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyr chwarterol gyda 1866 o danysgrifwyr a 63 o erthyglau blog gan gyrraedd 11,000 o ddefnyddwyr (a edrychodd ar 26,000 o dudalennau).

Mae'r ymgyrch ddigidol wedi'i chefnogi gan ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus barhaus ers mis Gorffennaf 2023 sydd wedi cyflwyno 45 darn o sylw yn y cyfryngau ac amcangyfrifir bod dros 750,000 o bobl wedi'i gwylio (a chynulleidfa bosibl o 148 miliwn). Gellir gweld enghreifftiau o'r sylw yn y cyfryngau yma.

Yn 2022 cynhaliwyd ymgyrch busnes-benodol i dargedu cwmnïau lletygarwch, mewn partneriaeth â Caerdydd AM BYTH (yr ardal gwella busnes). Ochr yn ochr â phecyn cymorth busnes, cynhyrchwyd dau fideo astudiaeth achos ac amcangyfrifir bod y sylw yn y cyfryngau wedi cyrraedd bron i 19,000 o bobl (a chynulleidfa bosibl o 1.9 miliwn).

## Gwyliau Bwyd

Mae Bwyd Caerdydd yn cydlynu Gŵyl Hydref flynyddol i ddathlu'r pleser o dyfu, coginio a rhannu bwyd da. Cynhelir gweithgareddau am ddim mewn cymdogaethau ar draws y ddinas drwy gydol mis Medi, yn ogystal â Pharth Bwyd Da Caerdydd pwrpasol yng Ngŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru sy'n croesawu dros 25,000 o bobl. Ers 2020:

- **cynhaliwyd 4 gŵyl flynyddol**
- **cymerodd 46 o aelod-sefydliadau Bwyd Caerdydd ran ynddynt**
- **cynhaliwyd 100 o ddigwyddiadau yn croesawu bron i 8,000 o fynychwyr**
- **rhannwyd 2,000 o brydau bwyd a dosbarthwyd 5,000+ o becynnau planhigion a hadau**







Ers 2020, mae Bwyd Caerdydd wedi derbyn a dosbarthu dros £15,000 mewn grantiau bach i gefnogi grwpiau i gynnal gweithgareddau fel rhan o'r ŵyl.



## Edible Cardiff

Mae Edible Cardiff yn brosiect partneriaeth rhwng Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Bwyd Caerdydd a Tyfu Caerdydd. Mae'n rhwydwaith llawr gwlad bywiog o 188 o dyfwyr o 113 o grwpiau tyfu – pobl leol, grwpiau a sefydliadau sy'n tyfu eu cynnyrch eu hunain. Ers mis Ionawr 2021, mae'r rhwydwaith wedi cynnal dros 120 o ddigwyddiadau, wedi dosbarthu dros 5000 o eginblanhigion, 1500 o becynnau tyfu gartref a grantiau bach i grwpiau i helpu dros 2000 o bobl i dyfu bwyd. Yn ddiweddar, mae Edible Cardiff wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS) a Charchar Caerdydd i gefnogi carcharorion i feithrin sgiliau garddwriaethol a thyfu eginblanhigion ar gyfer safleoedd tyfu cymunedol yng Nghaerdydd.

Dywedodd Neuadd Gymunedol a Gerddi Sant Pedr:

> **O ganlyniad uniongyrchol i weithio gydag Edible Cardiff, rydym wedi gwneud llawer o gysylltiadau ac wedi gallu datblygu syniadau ar gyfer prosiectau newydd. Er mai dim ond un ardd gymunedol ydyn ni, rydym yn teimlo ein bod ni bellach yn rhan o gymuned fwy.**

## Sgiliau Maeth am Oes

Mae Sgiliau Maeth am Oes yn rhaglen a arweinir gan ddeietegwyr sy'n anelu at sicrhau bod gan bobl yng Nghymru y sgiliau, y cyfle a'r hyder i gael mynediad at fwyd iach, fforddiadwy a chynaliadwy iddyn nhw eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'n cynnig cyfres o hyfforddiant maeth a gwasanaethau cymorth sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd. Mae gweithwyr cymunedol yn dysgu cyngor ar faeth, sesiynau coginio ymarferol a chyrsiau ac yn eu rhaeadru.

Ers 2021, mae 491 o bobl yng Nghaerdydd wedi cwblhau Cwrs Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2, mae 558 o bobl wedi cwblhau'r cwrs Dechrau Coginio Lefel 1 a 2255 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn cyrsiau a sesiynau eraill fel Bwyd Doeth am Oes a sesiynau coginio ymarferol ad-hoc.  Mae Maeth i'ch Un Bach (NYLO) yn rhaglen atal gyffredinol ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 5 oed, ac mae 343 o deuluoedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen ers 2021. Mae Caerdydd hefyd yn arwain un o Brosiectau Peilot Plant Iach Pwysau Iach yng Nghymru (PIPYN), sef rhaglen atal gordewdra i deuluoedd o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig gyda phlant 3-7 oed, ac mae 151 o deuluoedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen.

Gweledigaeth Caerdydd yw i bob dinesydd ac ymwelydd fwynhau pryd o fwyd iach a chyfeillgar i'r blaned bob dydd. Rydym wedi bod yn gweithio ar draws y ddinas, yn enwedig mewn lleoliadau cymunedol ac addysgol, i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd. Wrth wraidd y cyfan mae'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a sicrhau bod pawb yn gallu fforddio bwyd maethlon, iach sy'n ddiwylliannol briodol.

## Dinas Cyflog Byw

Mae Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw fel rhan o'r cynllun 'Creu Lleoedd Cyflog Byw'. Ymunodd grŵp o gyflogwyr blaenllaw o Gaerdydd i ffurfio Grŵp Gweithredu Cyflog Byw Caerdydd (ymunodd Bwyd Caerdydd â'r grŵp yn 2022) a chreu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â chyflogau isel yn y ddinas. Ers dod yn Ddinas Cyflog Byw yn 2019, mae 215 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd bellach, sy'n golygu bod bron i 78,000 o weithwyr yn cael y Cyflog Byw gyda 13,300+ o'r rhain yn cael codiad cyflog. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn rhoi cymorth ariannol i BBaChau, y sector cyhoeddus ac elusennau i gael eu hachredu drwy'r Cynllun Cymorth Achredu Cyflog Byw. Mae'r Gwobrau Hyrwyddwyr Cyflog Byw 2024 yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd i gydnabod twf anhygoel y mudiad Cyflog Byw yn y ddinas a Enillodd Caerdydd y Wobr Hyrwyddwr Lleol.





## Cynyddu Incwm i'r Eithaf

Mae Gweithgor Tlodi Bwyd y mudiad Bwyd Caerdydd yn dod â chyfranwyr allweddol ynghyd sy'n trechu tlodi bwyd yn y ddinas. Mae Cyngor Caerdydd yn aelod o'r grŵp hwn ac yn arwain y cymorth i gynyddu incwm i'r eithaf. Mae'r gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau yn cynnig rhaglenni cymorth sylweddol mewn meysydd fel cyllidebu, cynyddu incwm a rheoli dyledion, drwy'r Tîm Cyngor Ariannol a Llinell Gyngor.

Mae 21 Hyb yn y ddinas sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Cyngor Ariannol, gwasanaethau cynghori I Mewn i Waith, addysg i oedolion, cymorth gydag ymholiadau tai a budd-daliadau, mynediad at dalebau banciau bwyd a digwyddiadau am ddim fel dosbarthiadau coginio. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024, mae Tîm Cyngor Ariannol a Llinell Gyngor Caerdydd wedi:

- **Rhoi cyngor i 31,748 o bobl**
- **Ateb 139,090 o Alwadau drwy'r Llinell Gymorth**
- **Galluogi pobl i hawlio cyfanswm o £5,003,107 mewn taliadau untro a chymorth ariannol**
- **Nodi £58,653,587 mewn budd-daliadau wythnosol sydd ar gael i bobl**
- **Dosbarthu 3,561 o dalebau banc bwyd**
- **Rhoi £780,000 mewn grantiau yn ôl disgresiwn i 407 o bobl**
- **Penodi Hyrwyddwyr Bwyd a Thanwydd sy'n darparu cyngor ymarferol ar draws Hybiau'r ddinas: rhwng 2021 a 2023, mae 450 o bobl wedi cael eu cefnogi gan yr hyrwyddwyr hyn mewn dros 30 o ddigwyddiadau**
- **Darparu cyrsiau Rheoli Arian sydd wedi cynorthwyo dros 50 o bobl yn 2024**

Rhoi cyngor i

**31,748** o bobl

## Cerdyn y Blaned

Drwy'r Rhaglen Pontio'r Bwlch, bu Bwyd Caerdydd a Sustain, ynghyd â grŵp o aelodau cymunedol, ffermwyr, rheolwyr marchnad a deietegwyr yn gweithio ar greu 'syniadau mawr' ar gyfer un neu ddau o brosiectau peilot i'w cynnal yng Nghaerdydd. Arweiniodd hyn at ddatblygu Cerdyn y Blaned, sef cydweithrediad rhwng Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd, Bwyd Caerdydd, a grŵp o dyfwyr organig, mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol. Mae gan y cerdyn werth o hyd at £11 yr wythnos – gan alluogi deiliaid y cerdyn i newid eu ffrwythau a llysiau wythnosol arferol i fersiynau a gynhyrchir yn organig, heb fod ar eu colled. Mae wedi'i dreialu gyda grŵp o 16 o gyfranogwyr a bydd yn cael ei gyflwyno i 120 o aelwydydd eraill tuag at ddiwedd 2024.

Gwyliwch fideo Cerdyn y Blaned yma..

## Meithrin Gwydnwch Cyflenwadau Bwyd Cymunedol

Mae o leiaf 30 o brosiectau yn y ddinas yn dibynnu ar ddefnyddio bwyd dros ben gan FareShare Cymru a ffynonellau eraill dros ben. Mae'r rhain yn aml yn cael eu rhedeg fel llwyfan i gefnogi pobl mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy ddarparu cyngor ariannol, gweithdai coginio a maeth, benthyca cyfarpar a mwy. Mae Cydweithfa Fwyd Gymunedol Caerdydd wedi bod yn datblygu atebion i fynd i'r afael â'r cyflenwad cyfyngedig o fwyd dros ben, er mwyn sicrhau bod gan brosiectau bwyd cymunedol gyflenwad mwy cyson a chadarn o fwyd iach fforddiadwy.





Mae amgylchedd bwyd yr ysgol yn hanfodol i iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae sicrhau bod disgyblion yn bwyta bwyd maethlon bob dydd yn helpu i feithrin arferion deietegol cynaliadwy ac iach ac yn cefnogi cyrhaeddiad addysgol.

## Bwyd a Hwyl

Yn 2015 hwylusodd Bwyd Caerdydd bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Chwaraeon Caerdydd, BIP Caerdydd a'r Fro i dreialu Bwyd a Hwyl. Mae Bwyd a Hwyl yn gynllun sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd sy'n cynnwys prydau bwyd, addysg ar faeth, gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau corfforol.

- **Mae hyd at 30 o ysgolion yng Nghaerdydd yn cymryd rhan bob blwyddyn, gan weini degau o filoedd o brydau bwyd a chyrraedd 1700 o blant yn 2024.**
- **Ers 2015, mae cydlynwyr Bwyd a Hwyl wedi sicrhau miloedd o oriau o gyflogaeth ychwanegol. Mae pob cydlynydd (dros 50 o bobl) wedi cwblhau cymwysterau Bwyd a Maeth Cymunedol a Hylendid Bwyd Lefel 2.**

Yn 2016 gweithiodd CLILC gyda Bwyd Caerdydd i dreialu'r model Bwyd a Hwyl yn genedlaethol mewn 10 o ysgolion, gan weithio gyda phum awdurdod lleol a thri bwrdd iechyd lleol. Ariannodd



Llywodraeth Cymru y rhaglen yn rhannol yn 2017 ar gyfer 38 o glybiau Bwyd a Hwyl mewn 12 awdurdod lleol a phob un o'r 7 bwrdd iechyd lleol. Bellach wedi'i hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r rhaglen wedi ehangu i gynnwys 77 o gynlluniau mewn 21 o awdurdodau lleol. Yn 2023, cynhaliwyd y rhaglen mewn 175 o ysgolion gan ddarparu dros 11,150 o leoedd i blant bob dydd yr oedd y prosiect yn gweithredu.

Mae'r rhaglen Bwyd a Hwyl hefyd wedi cael ei defnyddio fel llwyfan ar gyfer profi mentrau newydd y gellir eu cyflwyno yn ystod y tymor. Er enghraifft, mae cydlynwyr Bwyd a Hwyl yn defnyddio eu hyfforddiant maetheg a'u hadnoddau drwy gydol y flwyddyn ysgol. Bwyd a Hwyl oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Peilot Courgettes hefyd (gweler isod).



## Cynllun Peilot Courgettes a Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru

Un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Bwyd Da Caerdydd oedd treialu menter caffael bwyd amgylcheddol gynaliadwy erbyn 2024. Yn 2022, dechreuwyd y Peilot Courgettes yng Nghaerdydd – prosiect ymchwil weithredu i gyflenwi llysiau amaeth-ecolegol o Gymru i ysgolion. Dros dair wythnos y rhaglen Bwyd a Hwyl, aeth bron i dunnell o gourgettes (o fferm lai na 3 milltir o Gaerdydd) drwy'r gadwyn gyflenwi ac fe'u defnyddiwyd mewn prydau amser cinio a gweithgareddau ar gyfer 1,500 o blant ar draws 29 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Darllenwch fwy.

Yn 2023, newidiwyd teitl y prosiect i Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru a chafodd ei ehangu i gynnwys mwy o dyfwyr, ardaloedd, a gweithgareddau fel gwneud hwmws betys ac ymweliad â Gardd Salad Caerdydd. Mae Caerdydd wedi parhau i gymryd rhan yn y cynllun yn 2024, gan ddefnyddio llysiau organig Cymreig mewn prydau dros wyliau'r haf ac yn ystod y tymor ysgol.

## Enghreifftiau eraill o ddefnyddio ffynonellau iach a chynaliadwy

- Croesawodd partneriaid Bwyd a Hwyl Caerdydd yr ymgyrch Dinasoedd Pysgod Cynaliadwy, gan arwain at 5,000,000 o brydau pysgod o ffynonellau cynaliadwy yn cael eu gweini yng Nghaerdydd bob blwyddyn ac 850,000 ar draws GIG Cymru.
- Mae gwasanaeth Arlwyo Addysg Cyngor Caerdydd yn parhau i weini dim ond pysgod wedi'u hachredu gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol i 120 o ysgolion, sy'n cael eu hyrwyddo ar fwydlenni.
- Gwnaeth Cyngor Caerdydd ymrwymiad fel rhan o Dinasoedd Llysiau i gynnwys dau ddogn o lysiau ar fwydlenni ysgol (sy'n mynd y tu hwnt i'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion).
- Mae Cyngor Caerdydd wedi ymchwilio i sut i leihau effaith amgylcheddol ei wasanaethau arlwyo drwy ddarganfod ble a sut y gall leihau ei allyriadau carbon o ran prydau ysgol yn ogystal â swyddogaethau arlwyo eraill y cyngor, ond gan gynnal safonau maeth, blasusrwydd a chadw'r gost fel y mae.

## Cipolwg ar weithgareddau eraill sy'n digwydd mewn ysgolion

- Bu Ysgol Gynradd Pentre-baen yn gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru i gynnal y cynllun peilot Caru Cennin, i gyflwyno plant i'w diwylliant bwyd, gan eu trwytho yn eu straeon bwyd eu hunain a'u cysylltu ag o ble mae eu bwyd yn dod.
- Mae Trees for Cities, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Tyfu Caerdydd wedi sefydlu 28 Maes Chwarae Bwytadwy yn ysgolion cynradd Caerdydd.
- Mae llawer o ysgolion wedi cymryd rhan yng Ngŵyl Hydref Bwyd Da Caerdydd, gyda digwyddiadau fel Operation Vegetable yn Ysgol Gynradd Ton yr Ywen, cinio cynhaeaf Gardd Gegin Grangetown yn Ysgol Feithrin Grangetown ac yn 2024, Sesiynau Blasu Bwyd y Cynhaeaf ar draws yr holl ysgolion yng Nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- Mae Cyngor Caerdydd, Deietegwyr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwyd Caerdydd yn cynnal 'Yr Awr Fwyd', cynllun peilot sy'n ceisio creu cenedl o ddinasyddion bwyd da drwy neilltuo un Awr Fwyd yn ystod pob diwrnod ysgol i bob plentyn.  Cefnogwyd 41 o leoliadau gofal plant i ennill Gwobr Byrbryd Iach Safon Aur. Mae 100% (32/32) o leoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg Caerdydd yn dal y Wobr Byrbrydau Iach Safon Aur ar hyn o bryd. Recriwtiwyd 6 lleoliad i Gynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Caerdydd, gan ddod â'r cyfanswm i 56.



- Mae llawer o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun Eco-Sgolion i rymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i'w hysgol a'r gymuned ehangach. Dyma rai enghreifftiau o gamau gweithredu Eco-Sgolion Caerdydd: mae Ysgol Gynradd Parc Ninian yn canolbwyntio ar wastraff bwyd yn 2024-25; mae eco-bwyllgor Ysgol Gynradd Adamsdown wedi gosod bin gwastraff bwyd newydd yn yr ysgol; gwnaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd gasgliad ysgol gyfan ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd fel rhan o waith Dinasyddiaeth Fyd-eang; ac mae llawer o ysgolion eraill yn canolbwyntio ar dyfu eu bwyd eu hunain neu ddatblygu Meysydd Chwarae Bwytadwy.

Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o
Fudiad Bwyd Da Caerdydd, gan drawsnewid y ddinas yn un o'r rhai mwyaf cynaliadwy yn y DU.
Mae'r crynodeb hwn yn gipolwg ar rai o'r llwyddiannau a'r gweithgareddau niferus sy'n digwydd ar draws y ddinas.

**I ddarllen y cais llawn ar gyfer y wobr ewch i www.foodcardiff.com**

**I gysylltu â Bwyd Caerdydd e-bostiwch foodsensewales@wales.nhs.uk**